CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION

Dydd Mercher 29 Mehefin 2022 – drwy Microsoft Teams

1a. Yn bresennol

Yn bresennol:
Dr John William Devine (Cadeirydd)
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Mr Joga Singh
Dr Jacqueline Gantley
Dr Harriet Pierpoint
Mrs Bronwen Williams
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jo Maal
Ms Jayne Woodward
Rhingyll Sian O'Shea
Ms Carol Woodward
Mr Martyn Jones
Rhingyll Jennifer Owen
Rhingyll Anisha Govani
Ms Amy Davies (Ysgrifenyddiaeth)
Ms Holly Watson (Cofnodion)

Gwesteion yn Cyflwyno Enghreifftiau o Gyfyng-gyngor Moesegol:
Prif Uwcharolygydd Trudi Meyrick
Prif Arolygydd Helen Coulthard
Ditectif Brif Arolygydd Steve Grother

Ymddiheuriadau:
Ms Nia Brennan
Mr Lee Jones
Prif Uwch-arolygydd Danny Richards
Prif Uwcharolygydd Chris Truscott
Ditectif Arolygydd Jack Wiskerd
Yr Arolygydd Matthew Hicks
Rhingyll Claire Evans-Bell
Ms Laura Stevenson
Ms Lisa Cloke

2. Cyflwyniadau a Chroeso – Y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y siaradwyr gwadd: Y Prif Uwcharolygydd Trudi Meyrick, y Ditectif Brif Arolygydd Steve Grother a'r Prif Uwcharolygydd Helen Coulthard.

Saernïodd y Cadeirydd y cyfarfod i dair rhan:

1. Y cyfyng-gyngor Camau gweithredu a'r Siop fwyd

2. Y cyfyng-gyngor ar ddefnyddio iaith fras yn y gweithle
3. Diweddariad ar y defnydd o ynnau Taser, Eitem 5 ac Unrhyw Fater Arall

3. Cofnodion a Chamau Gweithredu 31/03/2022 – Y Cadeirydd

Mae cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 31 Mawrth 2022 yn aros i gael eu cymeradwyo. Bydd cymeradwyaeth y cofnodion hyn yn cael ei chadarnhau yng nghyfarfod mis Medi.

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
10.06.2021.1	John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried a fydd gwaith ychwanegol sy'n cael ei ymgymryd gan aelodau'r Pwyllgor er budd y Pwyllgor yn cael ei gydnabod a'i ariannu a sut bydd hynny'n cael ei wneud.	John William Devine	**Diweddariad 19.09.2021:** John William Devine i gyfarfod â PGC Travis a Lee Jones i drafod cydnabyddiaeth i aelodau sy'n ymgymryd â gwaith ychwanegol (ar ben eu gwaith pwyllgor arferol) er budd y Pwyllgor. **Diweddariad 17.12.2021:** Bydd sgyrsiau'n cael eu cynnal mewn perthynas â chydnabyddiaeth am waith a gwblhawyd gan aelodau o'r Pwyllgor. **Diweddariad 31.03.2022:** Cyfarfu'r Cadeirydd â PGC Travis a Lee Jones er mwyn trafod mater cydnabyddiaeth i aelodau'r pwyllgor sy'n gwneud ymchwil yn ychwanegol at eu rôl ar y pwyllgor. Trafodir yr eitem hon yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. **Diweddariad 29.06.2022:** Roedd y Cadeirydd wedi trafod y cam gweithredu hwn yn flaenorol gyda PGC Travis a Lee Jones. Gwnaeth eu trafodaeth ymestyn dros ddwy haen: cydnabyddiaeth a sefydlu panel cynghori. Yn absenoldeb Lee Jones a PGC Travis, bydd y panel cynghori'n cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Trafodwyd cydnabyddiaeth dan unrhyw fater arall.
10.06.2021.2	Defnyddio Pwerau'r Heddlu/Stopio a Chwilio: John William Devine i arwain gweithgor i nodi enghreifftiau o gyfyng-gyngor moesegol/llunio cwestiynau penodol a data i'r Pwyllgor eu hystyried. Bydd y gweithgor yn cynnwys yr Uwch-arolygydd Stone, Martyn Jones, John William Devine, Harriet Pierpoint, Joga Singh a Lee Jones.	John William Devine	**Diweddariad 16.09.2021:** Mae gweithgor wedi'i ffurfio a thri chyfarfod wedi'u cynnal. Mae disgwyl i'r cyfarfod olaf gael ei gynnal ym mis Hydref/Tachwedd. Trafododd y grŵp fater cyffredinol Stopio a Chwilio, y prif themâu a'r materion moesegol a godir ganddo, data perthnasol, goblygiadau moesegol y data hwnnw, a datblygiad dogfen friffio. Caiff y ddogfen friffio ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried mewn cyfarfod pellach. Bydd y grŵp yn canolbwyntio nesaf ar p'un a ddylid defnyddio Stopio a Chwilio o gwbl yn Ne Cymru, pa fecanweithiau atebolrwydd y dylid eu gweithredu o'i ddefnyddio, a pha heriau moesegol sy'n codi o gyfathrebu â'r cyhoedd ynglŷn â'r defnydd o Stopio a Chwilio. **Diweddariad 17.12.2021:** Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod diwethaf yn gynharach ym mis Rhagfyr. Mae dogfen friffio'n cael ei pharatoi a bydd yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r gweithgor Stopio a Chwilio am eu cyfraniadau. **Diweddariad 29.06.22:** CYFLAWNWYD Y CAM GWEITHREDU

16.09.2021.2	John William Devine a Lee Jones i fwrw ymlaen â'r gwaith o recriwtio aelodau newydd i'r pwyllgor yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.	John William Devine a Lee Jones	**Diweddariad 17.12.2021:** I'w ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn newydd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng John William, Lee Jones, Nia Brennan ac Ian Vaughan. **Diweddariad 31.03.2022:** Mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 12 Ebrill er mwyn trafod y broses recriwtio ar gyfer hyd at ddau aelod annibynnol newydd. **Diweddariad 29.06.2022:** Mae cynnydd yn parhau. Bydd y rhestr fer yn cael ei llunio ar 18 Gorffennaf a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 29 Gorffennaf.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

4.1 Siopau Bwyd

Cyflwynodd y Prif Uwcharolygydd Trudi Meyrick y cyfyng-gyngor i'r Pwyllgor drwy roi cyflwyniad, gan ddechrau gyda sefyllfa siopau bwyd yr heddlu ar hyn o bryd.

Mae o leiaf 24 o siopau bwyd ar waith ym mhob rhan o'r heddlu. Mae'r allfeydd hyn yn cyflenwi diodydd, melysion a photiau byrbryd. Maent yn hygyrch iawn i swyddogion a staff, ac yn gweithredu 24 awr y dydd. Ar y cyfan, mae siopau bwyd yn boblogaidd ymhlith swyddogion a staff, ond yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig mewn gorsafoedd a swyddfeydd lle nad oes cyfleusterau ffreutur.

Mae'r siopau bwyd yn gweithredu ar sail ymddiriedaeth, lle caiff prisiau eu dangos ar wal a bydd y staff yn talu'r swm a ddengys i mewn i gynhwysydd dynodedig. Mae tua 50% o'r siopau bwyd yn cynnal rhyw fath o waith cadw cyfrifon. Gwneir elw yn y rhan fwyaf o'r siopau bwyd a chaiff y symiau eu dychwelyd i'r adran sy'n rheoli'r siop fwyd. Mae'r elw yn amrywio o £0-£600 y flwyddyn, ac fe'i defnyddir at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys gweithgareddau elusennol a gweithgareddau lles adrannau.

Rhoddodd y Prif Uwcharolygydd Trudi Meyrick gyflwyniad PowerPoint a ddangosodd ganfyddiadau ymchwil ddiweddar i siopau bwyd ym mhob rhan o'r heddlu.

Rhoddwyd materion cyfreithiol a oedd y tu hwnt i gwmpas y Pwyllgor hwn i'r naill ochr. Fodd bynnag, ymhlith y materion y dylid ceisio cyngor cyfreithiol arnynt, mae:

- Dyletswydd Gofal – pwy sy'n gyfrifol os bydd achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn yn erbyn y siop fwyd (e.e. am esgeulustod, torri cyfreithiau iechyd a diogelwch, methu â darparu digon o wybodaeth mewn perthynas ag alergeddau bwyd)?
- Atebolrwydd Treth – pwy sy'n atebol am y dreth sy'n ddyledus am elw a gynhyrchir gan y siop fwyd?

Materion moesegol i'w hystyried:

- Elw – A oes angen mwy o dryloywder a chyfreithlondeb o gwmpas gweithredu'r siopau bwyd, yn enwedig o ran pen taith unrhyw elw a wneir a'r dibenion y defnyddir yr elw ar eu cyfer?
- Datganiad budd busnes – os bydd y trefnwyr yn datgan budd busnes [cafodd y mater hwn ei roi i'r naill ochr gan y Pwyllgor, gan fod y Swyddog Atgyfeirio wedi ceisio cyngor rywle arall mewn perthynas â'r mater hwn]

<u>Cwestiynau er mwyn eglurhad/arsylwadau:</u>

- Pa mor ddiweddar yw'r datblygiad hwn? (JG)
- A ddefnyddir siopau bwyd mewn heddluoedd eraill? (JG)
- A oes unrhyw aelodau o staff wedi mynegi eu bod yn anfodlon ar fodolaeth y siopau bwyd? (JW)
- Pan gaiff siopau bwyd eu sefydlu, a oes rhaid dilyn unrhyw broses swyddogol? (JS)
- A gaiff y stoc gychwynnol mewn siop fwyd newydd ei hariannu gan arian yr heddlu neu o gronfeydd y swyddog ei hun? (JS)
- Ydy'r siopau bwyd yn hygyrch i'r cyhoedd? (JS)
- Os caiff siopau bwyd groeso ar y cyfan, ond y cânt eu staffio gan leiafrif bach o staff sy'n gwirfoddoli, a fyddai'n well gan y rhan fwyaf o'r staff beidio â thrafferthu rhedeg un? (ML)
- Mae'r canfyddiadau'n dangos nad yw rhai siopau bwyd yn gwneud elw neu caiff yr elw ei ail-fuddsoddi mewn stoc. (ML)

<u>Rhagor o Wybodaeth:</u>

Mae siopau bwyd wedi bod ar waith yn Heddlu De Cymru ers dros 30 o flynyddoedd. Yn hanesyddol, roeddent yn rhedeg ar raddfa lai. Nawr, maent yn fwy cyffredin ar hyd a lled y sefydliad. Caiff siopau bwyd eu croesawu gan staff, yn enwedig am nad oes cyfleoedd i swyddogion gael egwyl am luniaeth weithiau, a hynny oherwydd natur y swydd. Mae rhai o orsafoedd ac adeiladau'r heddlu y tu

allan i'r dref, i ffwrdd o siopau bwyd a siopau cyfleus. Er bod croeso i siopau bwyd, nid yw'r rhan fwyaf o staff am gymryd cyfrifoldeb am eu rheoli nhw. Fel rheol, caiff siopau bwyd eu rhedeg gan staff neu swyddogion mewn rôl ddi-ymateb neu ar sail wirfoddol.

Nid yw'n glir a yw'r staff a'r swyddogion yn ymwybodol bod rhai siopau bwyd yn creu elw. Cymerir yn ganiataol eu bod yn gwybod y caiff elw bach ei greu, ond nid yw'r swyddogion wedi gofyn unrhyw gwestiynau yn hyn o beth. Gall unrhyw aelod o staff sefydlu siop fwyd – nid oes proses ffurfiol i'w dilyn. Bydd siopau bwyd yn dechrau gydag aelodau'n defnyddio'u harian eu hunain i brynu'r cyflenwad cyntaf o stoc. Ar ôl digolledu'r buddsoddiad cychwynnol hwnnw drwy werthiant, caiff ei ddychwelyd i'r aelodau perthnasol. Bydd swyddogion a staff yn defnyddio'u harian eu hunain i dalu am eitemau o'r siopau bwyd. Mewn ardaloedd i staff yn unig y bydd y siopau bwyd yn gweithredu, felly ni fyddant yn hygyrch i'r cyhoedd.

Cwestiynau/sylwadau a godwyd gan y pwyllgor:

- A allai peiriannau gwerthu gymryd lle siopau bwyd heb i unrhyw beth arwyddocaol gael ei golli? (JWD)
    - Er y byddai peiriannau gwerthu yn cael gwared ar yr ystyriaethau sy'n gysylltiedig â siopau bwyd, maent yn ychwanegu maint elw sylweddol ar brisiau melysion. Yn ei hanfod, mae hyn yn cosbi swyddogion sydd ar sifftiau nos, sef y rhai sydd fwyaf dibynnol ar yr hyn sydd ar gael yn y gorsafoedd. (BW)
    - Mae cwmnïau peiriannau gwerthu yn gosod targed elw y mae angen ei gyrraedd er mwyn cadw peiriannau gwerthu mewn gorsafoedd. Nid yw'r targed elw hwn wedi'i gyrraedd yn y gorffennol ar ôl i beiriannau gwerthu gael eu gosod mewn gorsafoedd.
- O ran tryloywder, byddai'n ddymunol i gwsmeriaid gael rhyw syniad pwy sy'n elwa ar werthiant siopau bwyd. (JWD)
    - Cytunodd ML, gan ychwanegu y byddai'r wybodaeth hon yn galluogi swyddogion i wneud dewis deallus o ran p'un ai i gefnogi siop fwyd benodol ai peidio.
- Mewn perthynas â threfniadau cydymffurfio â threth ac yswiriant, argymhellir bod siopau bwyd yn cydymffurfio â threth ac yn cael eu hyswirio'n gywir. O ran y cwestiwn a ofynnodd a gaiff siopau bwyd eu cynnwys yn yswiriant yr heddlu, cynghorir cael cyngor gan ein hyswirwyr drwy Nia Brennan (Adran Gyfreithiol HDC) er y cafodd ei nodi bod yswiriant corfforaethol HDC yn ymestyn i weithgareddau plismona. (JWD)
- Yn ogystal, mae angen negeseuon clir ar alergeddau (e.e. “Gall y cynnyrch hwn gynnwys cnau.’) (ML)
- Awgrymodd JWD y dylai'r gwaith o stocio a gweinyddu'r siopau bwyd gael ei wneud y tu allan i amser gwaith.
    - Cytunodd y pwyllgor ar yr awgrym hwn.
- Awgrymodd y Pwyllgor na ddylid defnyddio cerbydau'r heddlu dim ond er mwyn prynu stoc i'r siopau bwyd.
- Mynegodd JG bryderon ynghylch y bwyd afiach sydd ar gael yn y siopau bwyd ac awgrymodd bod dewisiadau iachach (e.e. ffrwythau, cnau, diodydd heb fod yn garbonedig) yn cael eu cynnwys yn stoc y siop fwyd.

Crynodeb y Cadeirydd:

Cefndir

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r arolwg o siopau bwyd a gynhaliwyd ym mhob rhan o'r heddlu a'r nifer fawr o ymatebion a gafwyd i'r arolwg hwnnw. Mae siopau bwyd yn chwarae rhan bwysig yn llesiant swyddogion, yn enwedig i'r swyddogion sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd anghysbell lle nad oes modd cyrraedd siopau cyfleus ac archfarchnadoedd yn hawdd. Mae siopau bwyd yn nodwedd sefydledig o fywyd gorsafoedd ym mhob ardal o'r heddlu. Daeth llawer o siopau bwyd i fodolaeth mewn modd organig ac anffurfiol ar ôl gostyngiad mewn cyllid am wasanaethau ffreutur yn yr orsaf. Yn absenoldeb y ddarpariaeth fwyd honno, caiff swyddogion sy'n gweithio sifftiau nos a swyddogion sy'n gweithio mewn gorsafoedd anghysbell eu helpu'n fawr gan gyfleuster siop fwyd.

Caiff cryn dipyn o amser ac egni swyddogion a staff ei ymroi i redeg siopau bwyd (e.e. stocio a chadw cyfrifon). Yn wir, daw siopau i fodolaeth ac ânt allan o fodolaeth yn rhannol yn unol â pharodrwydd swyddogion a staff i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol o'u cynnal.

Gan mai ffrwyth menter y swyddogion yw siopau bwyd, mae'n bosibl y byddant y tu hwnt i gwmpas y Pwyllgor Moeseg Annibynnol. Fodd bynnag, mae siopau bwyd yn dibynnu ar le mewn adeiladau a ariennir yn gyhoeddus.

Er bod siopau bwyd yn darparu cyfleuster gwerthfawr mewn gorsafoedd, nid yw'n anarferol i bobl mewn ffyrdd o fyw eraill weithio mewn ardaloedd anghysbell neu beidio â chael rhwydd hynt i gyfleusterau ffreutur neu siopau cyfleus gerllaw. Yn yr achosion hynny, caiff prydau eu cynllunio a'u prynu gan yr unigolion hynny cyn dechrau gweithio. Felly, er bod siopau bwyd yn darparu gwasanaeth pwysig i swyddogion, ac na fyddai'r Pwyllgor yn dymuno rhwystro'r gweithrediad llyfn ohonynt yn ddiangen, cyfleustod ydynt yn hytrach nag angen.

Mae siopau bwyd mewn gorsafoedd wedi denu rhywfaint o sylw yn y cyfryngau cenedlaethol. Nododd *The Sun* i gynhyrchion wedi'u marcio fel rhai ‘nid i'w hailwerthu’ gael eu gwerthu mewn siopau bwyd yr heddlu yn ystod ymweliad brenhinol: “WE'LL LET YOU OFF MA'AM: Camilla buys ‘not for resale’ Cadbury’s Crunchie from police tuck shop”, 25 Ionawr. 2018, URL:

https://www.thesun.co.uk/news/5424421/camilla-buys-not-for-resale-cadburys-crunchie-from-police-tuck-shop/.
Am resymau canfyddiadau'r cyhoedd, ymhlith eraill, cytunwyd ei bod hi'n bwysig i siopau bwyd gydymffurfio â deddfwriaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes rheolau ffurfiol sy'n llywodraethu sail na gweithrediad siopau bwyd. Wrth i aelodau annibynnol gydnabod bod siopau bwyd yn gyfleuster pwysig, mae yna rai ardaloedd lle mae angen ffurfioli gweithrediad siopau bwyd.

Pryderon Cyfreithiol
Dylid gwahanu materion cyfreithiol a moesegol at ddiben ein trafodaeth, gan mai unig bryder y Pwyllgor hwn yw materion moesegol. Fodd bynnag, gellir tynnu sylw at dri phryder cyfreithiol y mae angen ymchwiliad pellach arnynt gan y bobl sy'n rheoli siopau bwyd:

- I ddechrau, dylid cadarnhau pwy sy'n gyfreithiol gyfrifol am y siop fwyd. Yn erbyn pwy fyddai achos i weithredu petai asiant siop fwyd yn ymddwyn yn esgeulus (e.e. yn gwerthu hen gynnyrch neu'n creu risg o faglu)? Nodwyd y byddai angen rhagor o fanylion mewn perthynas â phob siop fwyd i ystyried yr un peth.
- Yn ail, a gaiff y siopau bwyd eu hindemnio gan yswiriant HDC? Os na chânt, pa drefniadau yswirio dylid eu rhoi ar waith mewn perthynas â siopau bwyd?
- Yn drydydd, o safbwynt ariannol, pwy sy'n gyfrifol am unrhyw atebolrwydd i dalu treth sy'n codi o weithgareddau siopau bwyd?

Pryderon Moesegol
Yn ogystal â chwestiynau cyfreithiol yn ymwneud ag atebolrwydd sifil, ac atebolrwydd i dalu treth, roedd y pryderon moesegol a godwyd yn ystod y drafodaeth yn cynnwys y canlynol:

1. **Prynu Stoc**

Mynegwyd pryder hefyd am ganfyddiadau'r cyhoedd o swyddogion a allai fynd i brynu symiau mawr o nwyddau siop fwyd o archfarchnadoedd wrth wisgo lifrai'r heddlu. Dylai swyddogion stocio'r siopau bwyd y tu allan i'w horiau gwaith. Dylai swyddogion sy'n gwneud tripiau i siopau talu a chludo neu archfarchnadoedd er mwyn prynu nwyddau i'w gwerthu yn y siop fwyd wneud hynny yn eu cerbydau preifat, ac nid yng ngherbydau'r heddlu.

2. **Amser yr Heddlu**

Er mwyn sicrhau nad yw gweithgarwch y siop fwyd yn tarfu ar amser gwaith ac nad yw'n dibynnu ar adnoddau a ariennir yn gyhoeddus, ni ddylai staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau'r siop fwyd (e.e. stocio a chadw cyfrifon) wneud hynny yn ystod oriau gwaith.

3. **Tryloywder**

Dylid rhoi mwy o dryloywder ynghylch rheolaeth siopau bwyd ar waith. Yn benodol, dylid bod yn glir ynghylch faint o elw (os o gwbl) sy'n cael ei wneud gan siopau bwyd unigol a phwy yw derbynyddion unrhyw elw sy'n cael ei greu e.e. elusennau lleol neu fentrau cymunedol? Mynegodd aelodau annibynnol bryder am y posibilrwydd o niweidio enw da'r heddlu yn sgil siopau bwyd yn cael eu gweld fel busnes ymylol sy'n cael ei redeg gan swyddogion er mwyn eu budd unigol eu hunain. Fodd bynnag, roedd aelodau annibynnol yn poeni llai am y dibenion y caiff elw'r siop fwyd eu defnyddio nag oeddent am y diffyg tryloywder yn ymwneud â dibenion yr elw hwnnw. Roedd aelodau annibynnol yn glir y dylai siopau bwyd unigol wneud cwsmeriaid yn ymwybodol o'r dibenion y caiff unrhyw elw ei greu ar eu cyfer. Dylid rhoi gwybod i ddarpar gwsmeriaid er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad deallus o ran p'un ai i gefnogi siop fwyd benodol ai peidio.

4. **Sicrhau Diogelwch Cwsmeriaid**

Dylai siopau bwyd gymryd camau i sicrhau na chaiff cynhyrchion eu gwerthu ar ôl y dyddiad defnyddio erbyn ac y caiff gwybodaeth am alergeddau sy'n gysylltiedig â'u cynhyrchion ei chyfleu'n briodol i gwsmeriaid.

5. **Dewis Amgen y Peiriant Gwerthu**

Nid yw'n ymddangos bod siopau bwyd yn stocio unrhyw beth na ellir ei werthu drwy beiriant gwerthu.
O gofio y byddai peiriannau gwerthu sy'n cael eu rhedeg gan gwmni trydydd parti yn cael gwared ar y rhan fwyaf o'r pryderon uchod, os nad pob un ohonynt, a fyddai gosod peiriannau gwerthu yn ddewis amgen ffafriol?

Awgrymwyd bod cwmnïau peiriannau gwerthu wedi tynnu eu peiriannau yn ôl yn y gorffennol oherwydd yr elw isel o'u gosod mewn gorsafoedd heddlu. Felly, mae yna gwestiwn ynghylch *ymarferoldeb* disodli siopau bwyd â pheiriannau gwerthu.

Mynegwyd amheuaeth bellach ynghylch pa mor *ddymunol* fyddai'r disodliad hwnnw. Yn benodol, mynegwyd pryderon ynghylch y gost o ddisodli siopau bwyd â pheiriannau gwerthu i'r swyddogion. Byddai'r peiriannau gwerthu'n debygol o godi pris uwch am nwyddau na'r dewisiadau amgen yn y siop fwyd, felly byddai'r trefniant hwn yn golygu cost ychwanegol i swyddogion.

6. **Dewisiadau Iach**

Ochr yn ochr â hynny, awgrymwyd hefyd y dylai siopau bwyd gynnig dewisiadau amgen i fwydydd proses uchel fel bariau siocled a diodydd carbonedig. Anogwyd dewisiadau bwydydd cyflawn fel ffordd well o hybu iechyd a llesiant swyddogion drwy weithrediad siopau bwyd.

7. **Rhodd yn Hytrach nag Opsiynau Talu**

Os bydd y tryloywder a awgrymwyd yn atal swyddogion rhag ymgymryd â'r baich o redeg y siop fwyd, gallai cynllun tebyg i'r Cynllun Gwirfoddol Brenhinol neu gynllun y Blwch Byrbrydau Elusennol gael ei ystyried. Gall hyn symleiddio'r gwaith o redeg siopau bwyd oherwydd, dan y cynlluniau hynny, bydd rhoddion yn hytrach na thaliadau'n cael eu gwneud am y nwyddau a ddefnyddiwyd.

Casgliad
Ni ddylid byth defnyddio asedau'r heddlu i gludo stoc. Ni ddylid prynu (a, lle y bo'n berthnasol), cludo stoc na chadw cyfrifon y siop fwyd ar amser yr heddlu. Dylid hefyd gael tryloywder ar y pwynt gwerthu yn ymwneud â phen taith yr elw a gynhyrchir gan y siop fwyd.

Dylid ceisio cyngor cyfreithiol, yswiriant ac ariannol yn ymwneud â'r canlynol

- Atebolrwydd Sifil
- Trefniadau yswiriant
- Atebolrwydd i dalu treth

Nid oedd aelodau annibynnol yn gwrthwynebu cyfeirio'r elw at weithgareddau mewnol yr heddlu fel cyfaniadau at gronfeydd llesiant yr heddlu. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am y posibilrwydd o niweidio enw da'r heddlu a fyddai'n codi petai unrhyw drefniadau i'r dyfodol lle defnyddir elw'r siop fwyd er budd swyddogion unigol. Yn benodol, gallai hyn greu'r canfyddiad bod swyddogion yn rhedeg busnes ymylol er eu budd eu hunain.

O gofio'r rôl bwysig maent yn ei chwarae ym mywyd yr orsaf, ni fyddai'r Pwyllgor yn dymuno atal na gosod beichiau gweinyddol a fyddai'n golygu cau siopau bwyd gorsafoedd. Fodd bynnag, dylid tynhau anffurfioldeb y gweithrediad ohonynt er mwyn lliniaru unrhyw risg sy'n gysylltiedig â niweidio enw da neu ddiffyg cydymffurfiaeth deddfwriaethol.

4.2 Y Defnydd o Iaith Fras yn y Gweithle

Cyflwynodd Steve Grother y cyfyng-gyngor nesaf ar ddefnyddio iaith fras yn y gweithle.

Yn ystadegau cymharol cenedlaethol diweddaraf Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, adroddwyd bod 19% o'r holl gwynion a wnaed yn erbyn Heddlu De Cymru yn cwympo dan y categori “ymddygiadau unigol”. Mae'r ffigur hwn 6% yn uwch na'n ‘heddluoedd tebycaf’. Cyfeirir at y categori hwn amlaf fel anghwrteisi neu anoddefgarwch. Pryder penodol yw bod 52% o gwynion yn y categori hwn yn cwympo dan yr is-gategorïau ‘iaith/tôn anghwrtais a ‘chamau anghwrtais ac anoddefgar’.

Mae Cod Moeseg yr Heddlu, sy'n amlinellu safonau ymddygiad proffesiynol gofynnol, yn cynnwys awdurdod, parch a chwrteisi. Yn ôl y safon hon (adran 2.1), rhaid i'r heddlu sicrhau na ellid ystyried yn rhesymol bod eu hymddygiad ac iaith yn fygythiol, nac yn sarhaus i'r cyhoedd neu i gydweithwyr.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn adolygu deunydd ffilm camerâu fideo a wisgir ar y corff yn rheolaidd mewn perthynas â chwynion. Cyflwynodd Steve Grother dair enghraifft gynrychioladol lle defnyddiwyd iaith fras:

1. **Stop Caled:** Bydd Swyddogion Arfau Tanio awdurdodedig yn gorfodi cerbyd dan amheuaeth o gario delwyr cyffuriau dosbarth A trawsffiniol, ac sydd ym meddiant arfau o bosibl, i stopio. Bydd swyddogion yn gweiddi cyfarwyddiadau clir, weithiau gan ddefnyddio iaith a allai gael ei hystyried yn sarhaus gan rywun sy'n bresennol.

2. **Anhrefn Gyhoeddus**: Rhaid i swyddogion ymdrin yn gadarn â thrais wedi'i danio gan alcohol a chyffuriau ac anhrefn gyhoeddus wrth blismona'r economi liw nos yng nghanol y ddinas. Yn aml, mae ymddygiad ymosodol gan aelodau'r cyhoedd yn cyd-fynd â'r anhrefn gyhoeddus hon. Er mwyn mynnu rheolaeth a chyfathrebu'n effeithiol yng nghanol y fath anhrefn, gall swyddogion ddefnyddio iaith fras a sarhaus.

3. **Stopio a Chwilio**: Wrth stopio a chwilio sawl oedolyn ifanc sydd dan amheuaeth o gario cyllyll a chyffuriau yng nghanol y ddinas, daw'n glir bod y rhai sy'n cael eu chwilio'n defnyddio iaith sarhaus/fras fel rhan o'u geirfa arferol. Er mwyn cadw rheolaeth ar y grŵp a meithrin perthynas â'i aelodau, gall swyddogion ddefnyddio iaith debyg wrth ryngweithio.

Cwestiynau i'w hystyried gan y Pwyllgor:

- A ellir byth rhoi cyfiawnhad moesegol i'r defnydd o iaith sarhaus/fras wrth ddelio â'r cyhoedd?
- A allai gwahardd a/neu gosbi'r fath iaith atal swyddogion rhag siarad yn llwyddiannus ag aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys pobl dan amheuaeth) mewn rhai sefyllfaoedd?
- Pa gosb, os o gwbl, ddylid ei rhoi i swyddogion sy'n defnyddio iaith sarhaus ym mhresenoldeb y cyhoedd?

Cwestiynau/arsylwadau gan y Pwyllgor:

- Beth yw ystyr 'iaith fras' a 'rhegi' at ddibenion y drafodaeth hon? Ydy'r cyfyng-gyngor yn ymwneud â rhegfeydd yn unig (e.e. y gair sy'n dechrau ag 'F') neu ydyw'n cynnwys geiriau sarhaus hefyd (e.e. geiriau hiliol)? (JWD)
- Ydy'r cyfyng-gyngor mewn perthynas â defnyddio iaith anweddus neu ydy'r iaith anweddus yn cael ei chyfeirio at rywun? (JS)
- Ydy'r defnydd o regfeydd yn rhan o hyfforddiant arfau tanio/gorchymyn? (JS)
- Beth mae 'iaith sarhaus' yn ei golygu, gall rhai pobl ystyried bod geiriau sathredig yn amhroffesiynol/sarhaus. (HP)
- Oes byth pwrpas i iaith anweddus? Gall helpu i reoli rhai sefyllfaoedd, ond gall glywed iaith anweddus yn barhaus achosi straen i gyflogeion. (HP)
    - Cytunodd JM fod hyn yn rhywbeth i'w ystyried.
- Beth yw demograffig y rhai sy'n cofrestru cwynion am ddefnyddio iaith anweddus? Mae iaith fras yn rhan gyffredin o iaith llawer o bobl ifanc. (BW)
    - Cyflwynwyd y gŵyn stopio a chwilio gan oedolyn ifanc. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr achwynwyr o'r demograffig hwn.
- Sut mae iaith anweddus yn fwy effeithiol mewn sefyllfaoedd dirdynnol lle mae gweiddi eisoes yn cael ei ddefnyddio? Er enghraifft, sut mae clywed swyddog yn gweiddi 'cer lawr i'r' ff**in llawr' yn fwy effeithiol na gweiddi 'cer lawr i'r llawr'? (ML)
- Pam mae defnyddio iaith sarhaus yn amlycach yn Heddlu De Cymru? (JG)
- Mewn ysbytai, mae meddygon, nyrsys a gweithwyr ambiwlans yn delio â phobl feddw a dig iawn drwy'r amser. Fodd bynnag, mewn lleoliadau gofal iechyd, ni fyddai byth yn briodol defnyddio iaith fras. Pam y mae'r diwylliant plismona'n defnyddio dull gwahanol? (JG)
    - Mae disgwyl i'r heddlu fod yn gorfforol tuag at aelodau'r cyhoedd, yn aml mewn sefyllfaoedd o wrthdaro ac mae'n bosibl y bydd rhaid iddynt fynnu eu hawdurdod i reoli sefyllfaoedd peryglus.
- A oes nifer anghymesur o gwynion yn erbyn swyddogion benywaidd o gymharu â'u cydweithwyr gwrywaidd? (JWD)
    - Cadarnhaodd SG fod angen gwneud gwaith dadansoddol pellach i benderfynu ar ateb i'r cwestiwn hwn.
- Oes ffordd o gyfeirio digwyddiadau at y Coleg Plismona yn genedlaethol er mwyn iddynt eu hadolygu a darparu canllawiau pellach/diweddar ar y defnydd o iaith fras? (JW)

Rhagor o Wybodaeth

Mae'r cyfyng-gyngor hwn yn mynd i'r afael â defnyddio rhegfeydd traddodiadol, er enghraifft yr un sy'n dechrau ag 'F'. Mae hyn yn ymwneud â defnydd y swyddogion o'r geiriau hyn, nid eu cyfeirio at aelod o'r cyhoedd o reidrwydd. O safbwynt Safonau Proffesiynol, mae'r heddlu'n tueddu i werthuso'r defnydd o iaith anweddus yng ngoleuni'r ddyletswydd i orfodi a rheoli sefyllfaoedd peryglus o bosibl. O ganlyniad, nid yn aml y caiff swyddogion eu cosbi lle mae eu defnydd o iaith fras wedi bod yn effeithiol wrth ddiwallu dibenion plismona cyfreithlon.

Mae'n anodd dweud pam y mae gan Heddlu De Cymru gyfradd uwch o gwynion. Mae rhywfaint o ddeunydd ffilm camerâu fideo a wisgir ar y corff yn awgrymu, ar adegau, bod swyddogion yr heddlu'n mabwysiadu dull sy'n golygu nad oes fawr o ddewisiadau iddynt ar wahân i orfodi (e.e. 'Ni yw'r heddlu – gwnewch fel yr ydyn ni'n dweud'). Gall ffactorau gwleidyddol a digwyddiadau hanesyddol (e.e. streic y golwyr) hefyd chwarae rhan wrth esbonio pam y mae Heddlu De Cymru yn cael cyfran uwch o gwynion o'r math hwn.

Trafodaeth y pwyllgor:

Esboniodd BW iddi weld fideos o swyddogion yn defnyddio rhegfeydd i reoli digwyddiadau ar Wind Street, lle gwnaeth y defnydd o regfeydd alluogi'r swyddog i gael rheolaeth ar aelodau meddw o'r cyhoedd. Mynegodd BW bryder o gwmpas rhoi gwaharddiad diamod ar regi, oherwydd gall gwahardd yr adnodd geiriol hwn rwystro swyddogion mewn sefyllfaoedd o'r math hwn.

Bwriodd JWD amcan mai'r rheswm yr oedd Heddlu De Cymru wedi gweld cyfran uwch o gwynion cysylltiedig ag iaith fras oedd oherwydd unrhyw un o dri ffactor: Mae swyddogion HDC yn rhegi mwy na'u cymheiriaid mewn heddluoedd eraill, caiff y cyhoedd eu pechu'n haws gan iaith fras yn Ne Cymru na mannau eraill, neu mae'r cyhoedd yn Ne Cymru'n fwy bodlon cwyno am yr heddlu nag

ydynt mewn ardaloedd eraill. Er mwyn osgoi amheuaeth, dylid nodi nad yw'r ail a'r trydydd achos posibl yn feirniadaeth o'r cyhoedd yn Ne Cymru. I'r gwrthwyneb, mae amharodrwydd i oddef iaith fras gan yr heddlu ac i fynnu safonau uchel gan yr heddlu yn debygol o fynegi rhinwedd ddinesig.

Gwnaeth JM gyfatebiaeth rhwng rhegi a thatŵs: ar un adeg, ystyriwyd bod tatŵs yn amhroffesiynol ac roedd yn ofynnol i swyddogion eu cuddio. Wrth i gymdeithas ddatblygu, mae tatŵs wedi dod yn fwy cyffredin. Yng ngoleuni'r newid cymdeithasol hwn, mae polisi'r heddlu wedi newid i gadw i fyny â normau cymdeithasol sy'n fwy goddefgar tuag at datŵs. Mewn perthynas ag iaith, mae'n werth ystyried sut y mae iaith yn datblygu ac yn newid. Trafododd JM y defnydd o iaith anweddus fel dewis olaf, gan bwysleisio y dylai swyddogion ddefnyddio camau cyfathrebu tactegol cyn troi at iaith sarhaus.

Dadleuodd JM na ddylai'r heddlu gosbi'r defnydd o iaith sarhaus mewn digwyddiadau difrifol lle caiff y fath iaith ei defnyddio i reoli a gorchymyn. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio iaith anweddus yn ystod gwaith plismona cyffredinol gan ei bod yn cyflwyno risg i enw da. At hynny, ystyriodd JW y defnydd o iaith fras yn y gweithle: Os bydd iaith fras yn cael ei chlywed yn aml mewn swyddfeydd a gorsafoedd, yna bydd yr iaith yn trosglwyddo'n anochel i arferion gweithredol. Argymhellodd JW y dylid darparu canllawiau ar ddisgwyliadau proffesiynol wrth ryngweithio â chydweithwyr o ddydd i ddydd.

Haerodd JW na ddylid cymryd bod y defnydd o iaith anweddus ymhlith y ddemograffeg iau yn foesegol oddefgar i swyddogion yr heddlu ei defnyddio er mwyn rhyngweithio ag aelodau'r ddemograffeg honno. Petai proffesiynau eraill fel athrawon, gweithwyr cymdeithasol a staff meddygol yn defnyddio iaith anweddus tuag at bobl ifanc, byddai'n cael ei hystyried yn amhriodol, ac ni ddylai'r heddlu fod yn wahanol wrth gynnal y safonau proffesiynoldeb uchaf.

Cwestiynodd JWD a oedd yn effeithiol i swyddogion ddefnyddio rhyw lefel o iaith fras er mwyn meithrin perthynas â grwpiau y mae eu hymddiddan pob dydd yn cynnwys iaith o'r fath. Cytunodd SG, gan ychwanegu y gall iaith ffurfiol fod yn ddieithr i'r grwpiau hynny. Fodd bynnag, mynegodd SO bryderon o amgylch y nod o gyfateb i arddulliau cyfathrebu pobl ifanc, gan awgrymu bod gan yr heddlu ddyletswydd i fod yn broffesiynol a dylai swyddogion uniaethu â nhw heb orfod defnyddio rhegfeydd. Nododd JM fod angen i'r heddlu fod yn ofalus wrth ddefnyddio iaith anweddus gyda phobl iau, oherwydd gallai normaleiddio iaith sy'n anghyson â moeseg a gwerthoedd yr heddlu.

Holodd JWD a oedd rhagfarn ar sail rhywedd i'r cwynion a dderbyniwyd yn erbyn swyddogion am regi (h.y. a oes nifer anghymesur o gwynion am regi yn cael eu gwneud yn erbyn swyddogion benywaidd), oherwydd gall rhai rhannau o'r cyhoedd ystyried bod rhegi'n fwy derbyniol gan swyddog gwrywaidd na swyddog benywaidd. Gallai'r fath ragfarn awgrymu rhywfaint o rywiaeth o ran y cwynion a wneir yn erbyn swyddogion benywaidd.

Gofynnodd HP pa dystiolaeth sy'n bodoli i gefnogi'r cynnig bod rhegi'n effeithiol mewn digwyddiadau dwysedd uchel. Nododd HP na ddylai swyddog ddefnyddio sefyllfa dwysedd uchel fel esgus i regi – dylid defnyddio rhegi dim ond os oes iddo fudd tactegol. Dylid ystyried canlyniadau wrth ddeall a ellir cyfiawnhau rhegi.

Nododd JM yn ystod adolygiadau o ddeunydd ffilm camerâu a wisgir ar y corff o ddigwyddiadau dwysedd uchel, mae swyddogion yn aml wedi'u synnu o weld eu bod nhw wedi rhegi yn ystod y digwyddiad. Cymaint oedd y straen yr oeddent yn mynd trwyddo ar y pryd, nid oeddent yn cofio rhegi o gwbl.

Cododd SO bwynt o amgylch safonau proffesiynol, gan nodi na ddylai swyddogion sy'n rhegi mewn sefyllfaoedd dwysedd uchel fod yn destun camau disgyblu.

Nododd JWD fod dau fater ar wahân i'w hystyried mewn perthynas â rhegi a'r Cod Moeseg:

1. Ydy'r Cod yn olrhain gofynion moesegol y Cod yn gywir neu ydy'r Cod yn gofyn am ddiwygiadau mewn perthynas â'r mater hwn?
2. O gofio'r Cod sydd ar waith, beth yw'r dull gorau o gynnal gwerthusiad moesegol o regi o fewn cyfyngiadau'r Cod?

Ymddengys bod y Cod yn pennu gwaharddiad llwyr ar regi. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle na ddylid erlyn achos o dorri'r Cod. Dywedodd SG fod y Cod Moeseg wrthi'n cael ei adolygu gan y Coleg Plismona.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid defnyddio iaith fras fel dewis olaf. Dylai swyddogion ddefnyddio proses uwchgyfeirio cyfathrebu tactegol cyn troi at regi. Ni ddylid defnyddio iaith fras yn aml, gan fod rhaid i blismona weithredu yn unol â safon uwch. Dylai swyddogion ystyried y rhai sydd o fewn clyw a'r effaith negyddol y gallai rhegi ei chael ar y berthynas â chymunedau yn ofalus.

<u>Crynodeb y Cadeirydd:</u>
Mae'r drafodaeth hon yn deillio o ystadegau cwynion Heddlu De Cymru lle mae anfoesgarwch ac anghwrteisi'n cynnwys cyfran uwch o gwynion na heddluoedd tebyg. Gellir cynnig sawl esboniad am hyn: ydy swyddogion yn Ne Cymru'n ymddwyn yn anghwrtais tuag

at y cyhoedd yn amlach? Ydy poblogaeth De Cymru'n haws eu pechu trwy regi na phoblogaethau eraill? Neu ydy poblogaeth De Cymru'n fwy parod i gwyno am ymddygiad anghwrtais canfyddedig swyddog?

Cyfyngiadau ar Gwmpas y Drafodaeth

Cafodd trafodaeth y Pwyllgor o'r cyfyng-gyngor ei chyfyngu mewn sawl achos pwysig:

- Roedd y Pwyllgor yn ymhél ag iaith fras yn unig, nid anghwrteisi yn gyffredinol.
- Roedd y Pwyllgor yn ymhél â chyfiawnhad moesegol rhegi at aelodau'r cyhoedd a rhegi yn eu presenoldeb. Roedd y Pwyllgor yn ymhél ag arferion rhegi at gydweithwyr yn yr heddlu a rhegi yn eu presenoldeb.
- Roedd y Pwyllgor yn ymhél â defnyddio iaith fras fel dull mynegi dewisol yn hytrach nag yngan geiriau bras yn awtomatig (e.e. yn dilyn sioc neu boen acíwt).
- Roedd y Pwyllgor yn ymhél â *chyfiawnhad* rhegi gan swyddogion. Nid oedd y Pwyllgor yn ymhél â chosbau y dylid eu dilyn am regi moesegol anghyfiawn.

Cyfiawnhad Moesegol

Roedd y Pwyllgor yn ymhél â chyfiawnhad defnyddio iaith fras wrth blismona at y dibenion canlynol:

1. Er mwyn cael rheolaeth ar sefyllfa a oedd yn cynnwys amheuaeth o droseddwyr arfog;
2. Er mwyn cael rheolaeth ar sefyllfa a oedd yn cynnwys anhrefn gyhoeddus gan unigolion meddw; a
3. Hwyluso'r gwaith o feithrin perthynas â grwpiau y mae iaith fras yn rhan o iaith lafar y grŵp.

Yn y ddau achos cyntaf, cyfeiriwyd y rhegi perthnasol at y gwrthrych fel math o gyfathrebu tactegol. Yn y trydydd achos, defnyddiwyd rhegi'n achlysurol yn ystod sgwrs.

Esblygiad Iaith

Mae sifft ddiwylliannol wedi digwydd lle mae sarhad rhai rhegfeydd fel y 'gair sy'n dechrau ag F' wedi lleihau mewn sawl rhan o gymdeithas. Mae hyn yn debyg i'r sifft a ddigwyddodd yn ymwneud â sarhad y gair 'damio' wrth i gymdeithas Prydain fynd yn fwy seciwlaraidd.

Dau gwestiwn ar wahân:

Beth ddylai'r Cod ei bennu mewn perthynas â'r defnydd o iaith fras gan swyddogion?
yn erbyn
Sut y dylai swyddogion fynd i'r afael â'r defnydd o iaith fras o gofio'r gwaharddiad llwyr ar regi gan y Cod Moeseg sydd ar waith?

Dynodwyd pedair ystyriaeth foesegol allweddol:

1. Y defnydd o iaith fras ym maes plismona
2. Parch i'r cyhoedd a risg i enw da trwy regi
3. Proffesiynoldeb
4. Rhwymedigaethau fel model rôl

1. Y Defnydd o Iaith Fras

Y Cwestiwn Anghenraid: A oes byth *angen* defnyddio iaith fras at ddibenion gorchymyn a rheoli?

Y Cwestiwn Effeithiolrwydd: Ydy'r defnydd o iaith fras yn *effeithiol* at ddibenion gorchymyn a rheoli? Y prif reswm a gynigir am gyfiawnhau iaith fras ym maes plismona yw ei fod yn effeithiol o ran cael rheolaeth ar sefyllfa. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod diffyg tystiolaeth i gadarnhau'r honiad hwnnw – mae'r ddadl yn dibynnu'n helaeth ar dystiolaeth anecdotaidd. Byddai adroddiad seiliedig ar dystiolaeth glir am yr hyn y mae iaith fras yn ei chyflawni na ellid ei chyflawni drwy gyfathrebu clir ac uniongyrchol heb iaith fras o gymorth i gryfhau'r ddadl hon.

2. Parch i'r cyhoedd a Risg i Enw Da Trwy Regi

Y prif bryder â rhegi ym mhresenoldeb aelodau'r cyhoedd a chyfeirio'r rhegi atynt yw bod defnyddio'r iaith honno'n cyfleu amarch at y gynulleidfa. Mae diffyg parch gan yr heddlu at y cyhoedd ei hun yn anghyfiawn, ac mae hefyd yn peryglu cael effaith ar hyder y cyhoedd a niwed i enw da'r heddlu.

Daeth aelod annibynnol â dau ddarn o lenyddiaeth academaidd i sylw'r Pwyllgor a oedd yn addysgiadol yn hyn o beth. Nododd y papur cyntaf '[w]hen profanity was used by police during a mock arrest scenario, participants were significantly more likely to negatively evaluate performance and to rate force as excessive' (Patton, Christina L., "Police Profanity: How 'tactical language' can lead to excessive force complaints" yn *Public Service Psychology*, Ionawr 2018, URL: https://www.apadivisions.org/division-18/publications/newsletters/public-service/2018/01/police-profanity).

Roedd yr ail bapur yn ymhél ag achosion o saethu'n ymwneud â swyddogion lle roedd iaith fras yn cael ei defnyddio mewn ffordd nad yw'n ymwneud â chanlyniadau tactegol. Adroddodd fod iaith fras o'r fath 'resulted in a significantly higher perceived level of officer guilt in these situations, and a diminished perception of his professionalism' (Sharps, Matthew J. et al, 'Police Profanity and

Public Judgements of Guilt and Effectiveness in Officer-Involved Shootings' yn Journal of Police and Criminal Psychology, cyfrol. 34, 2019, tt. 87, URL: https://link.springer.com/article/10.1007/s11896-018-9268-y).

3. Proffesiynoldeb

Ni chaiff iaith fras fyth ei hystyried yn dderbyniol mewn proffesiynau fel addysgu, y gyfraith neu feddygaeth. Hyd yn oed yn y gwasanaethau ambiwlans ac achosion brys, lle mae'n rhaid i weithwyr brys reoli sefyllfaoedd sy'n cynnwys unigolion anodd eu rheoli, ni chaiff iaith fras ei chaniatáu na'i hymarfer. Beth sy'n cyfiawnhau ymadawiad o'r norm proffesiynol hwn yng nghyd-destun plismona?

4. **Rhwymedigaethau fel Model Rôl**

Mae dadl bellach yn erbyn y defnydd o iaith fras yn pwysleisio rhwymedigaethau swyddogion fel model rôl. Os bydd pobl ifanc yn clywed swyddogion yn rhegi'n achlysurol, bydd hyn yn rhoi'r neges iddynt fod rhegi'n dderbyniol. Mae bod yn barchus ac ymataliol gyda'u hiaith yn agwedd bwysig ar yr heddlu'n ymddwyn fel modelau rôl cadarnhaol ar gyfer eu cymuned. At hynny, mewn oes lle caiff ymddygiad swyddogion ei ffilmio a bod modd ei olygu a'i bostio ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'n hynod bwysig bod swyddogion yn broffesiynol wrth gyfathrebu.

Casgliad

Rhannodd aelodau annibynnol y farn y dylid ystyried cyfiawnhad rhegi fesul achos. Fodd bynnag, dylid rhegi dim ond pan fo hynny'n gymesur â'r sefyllfa. Fel rheol, bydd hyn yn golygu y dylid defnyddio iaith fras dim ond ar ben uchaf y raddfa uwchgyfeirio.

Cytunodd aelodau annibynnol, er na ellir cyfiawnhau gwaharddiad llwyr ar iaith fras, dylid ei defnyddio fel y dewis olaf. Gwrthododd aelodau annibynnol waharddiad llwyr ar regi. Mae'r sefyllfa hon yn gwrthdaro â'r Cod Moeseg sydd i weld yn gosod gwaharddiad llwyr ar regi gan swyddogion.

Y prif bryder a fynegwyd yw y byddent yn dibynnu ar iaith fras yn rhy gynnar ac yn ddiangen. Gellir gwneud yr achos cryfaf am iaith fras mewn perthynas â swyddogion arfau tanio yn defnyddio iaith fras fel rhan o strategaeth 'sioc a rhyfeddod' er mwyn dylanwadu ar sefyllfa yn syth. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y cyfiawnhad hwn yn dibynnu ar yr heddlu'n ymatal rhag defnyddio iaith fras ar raddfa ehangach. Mae'r effaith sioc a rhyfeddod yn rhagdybio ei bod hi'n anarferol iawn i'r heddlu ddefnyddio iaith fras, fel arall ni fyddai'r effaith ddymunol yn cael ei chyflawni.

Cymeradwyodd aelodau annibynnol i roi rhywfaint o ddisgresiwn i swyddogion mewn perthynas â defnyddio iaith fras yn amodol ar ddarparu tystiolaeth empiraidd gadarn yn ymwneud ag effeithiolrwydd rhegi fel dull cyfathrebu tactegol.

Gallai'r Coleg Plismona ystyried cyhoeddi canllawiau estynedig er mwyn i swyddogion allu cysoni gwirionedd plismona yn haws â gofynion y Cod Moeseg.

Dylai Heddlu De Cymru gynnal y safonau proffesiynoldeb uchaf yn unol â'r gwasanaethau brys eraill mewn perthynas â chyfathrebu â'r cyhoedd. O ran y tair enghraifft a ddarparwyd gan SG, cytunodd aelodau annibynnol y byddai modd cyfiawnhau rhegi yn yr achos 'Stop Caled' ond ni fyddai modd ei gyfiawnhau yn yr achosion 'Anhrefn Gyhoeddus' neu 'Stopio a Chwilio'.

4.3 Diweddariad ar y defnydd o ynnau Taser

Cyflwynodd y Prif Arolygydd Helen Coulthard y diweddariad ar ynnau Taser a rhoddodd gyd-destun trwy gyflwyniad PowerPoint.

<u>Diweddariad ar y defnydd o ynnau Taser:</u>
Yn 2018, roedd gan Heddlu De Cymru 281 o swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio gynnau Taser. Roedd yr heddlu'n gobeithio cyrraedd 800 o swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio gynnau Taser yn 2022. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 741 yn holl adrannau'r rheng flaen, sy'n cynnwys unedau ymateb, cymdogaeth ac unedau troseddau cyfundrefnol.

Gall gynnau Taser gael eu tynnu, eu defnyddio i anelu â dotiau coch, eu tanio, eu saethu o bell (*arched*) a gellir eu defnyddio i lonyddu. Caiff pob un o'r rhain eu dosbarthu fel defnydd o rym. Caiff pob defnydd o rym ei nodi a'i fwydo ar system Niche er mwyn gallu arsylwi a chraffu ar ddata yn lleol. Mae cofnodion 'Defnydd o Ynnau Taser' yn galluogi'r heddlu i nodi sawl gwaith y mae gynnau Taser wedi'u defnyddio, yn ogystal â rhywedd, oedran ac ethnigrwydd y gwrthrychau, ac a ddefnyddiwyd deunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff wrth ddefnyddio'r gwn Taser. Mae'r Bwrdd Defnydd o Bwerau'r Heddlu yn cynnig gwaith craffu ychwanegol ar y defnydd o ynnau Taser gyda hapsamplu yn galluogi archwiliadau mynych.

Mae materion ansawdd data wedi arwain at ystumio data Taser rhyw ychydig. Mae data 2019-2020 yn nodi y cafodd gwn Taser ei ddefnyddio dair gwaith ar blant dan 10 oed, a 33 gwaith ar oedolion dros 65 oed. Roedd hyn am nad oedd swyddogion wedi ticio blwch cymwys wrth lenwi ffurflen defnydd data ac, o ganlyniad, mae'r system yn llenwi blychau'n ddiofyn, gan arwain at fewnosod data anghywir. Mae Grŵp Pwerau'r Heddlu wedi mynd i'r afael â'r materion hyn i sicrhau bod ansawdd data'n cael ei wella. Mae adolygiad cyffredinol ar waith i astudio cyfraddau anghymesuredd mewn categorïau rhywedd ac ethnigrwydd.

Cyflwynodd y Prif Arolygydd Helen Coulthard ddata ar ynnau Taser i 2018/19, 2019/20, 2020/21, a 2021/22.

Mae'r heddlu wedi cynnig y newidiadau canlynol i'r defnydd o ynnau Taser:

- Cynnydd yn nifer y swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio gynnau Taser o 741 i 1028. Mae'r nifer hon yn cynrychioli 80% o swyddogion rheng flaen ac uchelgais ydyw yn hytrach na tharged.
- Gostwng yr amser gwasanaeth gofynnol i gymhwyso am hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser o 15 mis i 12 mis.

Mae arolygon staff yn awgrymu bod cario gwn Taser yn rhoi mwy o hyder a diogelwch, yn enwedig ymhlith cydweithwyr benywaidd. Weithiau, mae swyddogion ar eu pen eu hunain ac mae cario gwn Taser yn ychwanegu haen o ddiogelwch. Mae'r heddlu wedi nodi cynnydd yn nifer y swyddogion iau ac amhrofiadol sy'n bresennol mewn digwyddiadau rheng flaen peryglus o bosibl. Bydd gostwng yr amser cymhwyso i wasanaeth o 12 mis yn galluogi swyddogion iau i gael gynnau Taser yn gynt.

<u>Cwestiynau/arsylwadau gan y Pwyllgor:</u>

- A yw camerâu a wisgir ar y corff yn dechrau recordio'n awtomatig pan fydd gwn Taser yn cael ei dynnu? (ML)
- Yn 2021/22, anelodd swyddogion ddotiau coch eu gwn Taser 441 o weithiau ond dim ond 10 gwaith y gwnaethant deimlo'r angen i ddefnyddio'r ddyfais. (ML)
- Pa asesiad a wneir i werthuso gallu unigolyn i reoli gwrthdaro? Ydy'r asesiad yn cynnwys unrhyw werthusiad seicolegol? (JW)
- A gaiff defnydd arall o rym ei graffu arno i'r un graddau (e.e. gefynnau a batonau)? (ML)
    - Caiff pob defnydd o rym ei graffu arno ym Mwrdd Defnydd o Bwerau'r Heddlu a'i ddangos ar y dangosfwrdd data.
    - Mae gan yr heddlu haenau craffu gwahanol: cynhelir cyfarfodydd chwarterol ar lefelau tactegol a strategol, a cheir craffu annibynnol drwy Grŵp Cynghori Annibynnol yr Heddlu (IAG) a Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona.
- Gan fod gwn Taser yn arf gweladwy, a oes tensiwn rhwng diogelwch y swyddog a phlismona drwy gydsyniad? (JWD).
    - Nododd HC nad yw hi'n ymwybodol o bryder o'r fath yn cael ei adrodd yn ôl i'r heddlu. Mae newidiadau ym maes plismona mewn perthynas â therfysgaeth yn dangos bod y cyhoedd yn derbyn gynnau Taser er mwyn eu diogelwch nhw a diogelwch y swyddog.
    - Cadarnhaodd MJ nad yw'r heddlu'n cael llawer o gwynion mewn perthynas â defnyddio gynnau Taser.
    - Darparodd JO ei phrofiad ei hun o gario gwn Taser. Esboniodd fod y cyhoedd (yn enwedig dinasyddion hŷn) yn tueddu i fod yn gadarnhaol tuag at swyddogion, yn enwedig swyddogion benywaidd, a oedd yn cario gwn Taser, gan ei fod yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.
- Beth yw'r dystiolaeth sy'n sail i ostwng yr amser cymhwyso i gario gwn Taser o 15 mis o wasanaeth i 12 mis? A yw'n rhoi tawelwch meddwl i swyddogion a all fod yn gweithio ar eu pen eu hunain? (JW)
    - Y prif ysgogiad am ostwng amser y gwasanaeth o 15 mis i 12 mis yw rhoi diogelwch ychwanegol i swyddogion iau a fydd o bosibl yn gorfod mynd at ddigwyddiadau a all fod yn beryglus. Mae rhai heddluoedd eraill ond yn gofyn am 12 mis o wasanaeth. Nid oes unrhyw heddlu'n gofyn am wasanaeth o lai na 12 mis. (HC)
    - Mae'r defnydd o ynnau Taser yn isel iawn o hyd. Caiff swyddogion eu hyfforddi'n drwyadl ac maent yn dilyn canllawiau gynnau Taser. Nododd MJ fod gynnau Taser wedi'u defnyddio i ddiogelu unigolion agored i niwed. Roedd un enghraifft yn cynnwys unigolyn a oedd yn ceisio niweidio'i hun yn ddifrifol a'r unig ffordd o'i stopio rhag hunan-niweidio oedd trwy ddefnyddio gwn Taser.
- Ydy amlhau nifer y swyddogion sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio gynnau Taser yn erydu egwyddor heddlu di-arf? (JWD)
    - Esboniodd HC fod gynnau Taser yn rhan o gyfarpar diogelu personol ac mae'n wahanol i blismona arfog. Mae'r cyhoedd yn hyddysg ac yn gwerthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng y ddau. Er bod gwn Taser yn ymddangos fel arf tanio i raddau, mae gwahaniaeth amlwg rhwng gwn Taser a phlismona arfog.
- Oes unrhyw ddata ar ganfyddiadau'r cyhoedd o ynnau Taser? (JWD)
    - Nid yw HC yn ymwybodol o ganfyddiadau y tu allan i'r sefydliad, ar wahân i brofiad yr heddlu drwy waith manwl iawn a chraffu ar ynnau Taser.

<u>Rhagor o wybodaeth:</u>

Mae camerâu diweddaraf yr heddlu'n dechrau recordio'n awtomatig ar ôl i wn Taser gael ei dynnu o'i wain. Mae'r nodwedd newydd ar y camerâu wedi cynyddu cyfradd y camerâu a wisgir ar y corff o 74.9% i 90.1% yn 2021-2022.

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) wedi gofyn bod pob gwn Taser sydd wedi'i danio ar blant a fu'n destun cwynion yn cael eu hatgyfeirio atynt er mwyn ymchwilio iddynt. Nid oes un wedi'i atgyfeirio ers i'r cais hwn gael ei wneud.

Er mwyn cymhwyso i gario gwn Taser, rhaid i oruchwylwyr gymeradwyo bod swyddog yn ddiogel ac yn addas ar gyfer patrolio annibynnol. Yn y portffolio hwnnw, bydd angen i swyddogion ddangos eu gallu i reoli gwrthdaro mewn cyd-destun plismona proffesiynol o fewn eu 12 mis o wasanaeth. Yna bydd angen i swyddogion ddynodi eu bod yn barod i gael eu hyfforddi i ddefnyddio gynnau Taser (gan fod yr hyfforddiant hwnnw'n wirfoddol), ac wedyn ceisio cymorth SPOC Taser Uwch-dîm Rheoli'r Unedau Rheoli Sylfaenol i fynd i hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser. Fodd bynnag, nid oes asesiad seicolegol penodol yn rhan o'r broses gymhwyso hon.

Ar ôl cael eu hyfforddi a'u lleoli, bydd tri 'defnydd' cyntaf y swyddog o wn Taser yn cael ei adolygu gan SPOC Taser Uwch-dîm Rheoli'r Uned Reoli Sylfaenol a'i friffio gyda'r swyddog hwnnw. Bydd y protocol hwn yn cael ei gyflwyno i bob cariwr newydd. Bydd 'defnyddiau' pob swyddog dan hyfforddiant yn cael eu hadolygu'n ganolog yn Ymgyrchoedd Arbenigol: Grŵp Adolygu Gynnau Taser er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r heddlu.

Rhoddwyd y cyflwyniad hwn i Grŵp Cynghori Annibynnol yr heddlu ar 18 Mai 2022. Cododd y grŵp gwestiynau ynghylch y gwahaniaeth nodedig ym mhroffil rhywedd y swyddogion sy'n dewis defnyddio gynnau Taser. Nodwyd y gall swyddogion benywaidd wneud mwy o ddefnydd o ynnau Taser.

5. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / De Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol)

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar gyfarfod y Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2022.

Roedd y cyfyng-gyngor a drafodwyd yn ymwneud â defnydd yr heddlu o gofnodion meddygol. Pan geir cofnodion meddygol, cânt eu llwytho ar system rheoli cofnodion Niche at ddibenion deallusrwydd. Bydd yr uned canfod ac ymchwilio i droseddau yn darllen drwyddynt, a lle gwelir tystiolaeth ynddynt fod trosedd wedi'i chyflawni, bydd yr uned yn creu cofnod troseddol ychwanegol er nad yw'r dioddefwr wedi rhoi gwybod am y drosedd ond ei fod wedi'i datgelu i'w meddyg teulu. Mae'r cyfyng-gyngor hwn wedi'i uwchgyfeirio i'r Pwyllgor Moeseg Heddlu Cenedlaethol.

Darparwyd diweddariad ar lafar hefyd mewn perthynas â'r astudiaeth gwerthoedd moesegol corfforaethol sy'n mynd rhagddi yn Heddlu Sussex. Nid yw'r astudiaeth hon wedi'i chyhoeddi eto.

6. Unrhyw Fater Arall

1. **Cydnabyddiaeth am waith ychwanegol gan aelodau o'r Pwyllgor:**

Mewn cyfarfod ar 4 Mawrth lle roedd John William Devine, Lee Jones a Mark Travis yn bresennol, cytunwyd y byddai cyllideb flynyddol yn cael ei darparu i'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol (CBMA) er mwyn ariannu amrywiaeth o weithgareddau cysylltiedig â'r pwyllgor, sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

1. Tasgau ymchwil bach a gyflawnwyd gan aelodau'r pwyllgor er budd y Pwyllgor;
2. Recriwtio i'r pwyllgor (e.e. marchnata); a
3. Meithrin darpar ymgeiswyr i wasanaethu ar y Pwyllgor.

O ran y gydran ariannu ymchwil, cytunwyd ar y canlynol:

- Fyddai'r gyllideb ar gael i aelodau'r Pwyllgor, dim ond at ddibenion ymchwil y gallent ymgymryd â hi sy'n fwy na chwmpas eu rôl ar y pwyllgor.
- Ni ddylai'r ymchwil a ariennir drwy'r cynllun hwn fod yn fwy na deuddydd o waith.
- Ni fyddai'r arian hynny ar gael i bobl nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor nac ar gyfer tasgau ymchwil sy'n gofyn am fwy na deuddydd o waith. Dylid defnyddio arian arall sydd ar gael drwy swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gefnogi ymchwil fwy neu allanol.
- Byddai'r gyllideb yn gwneud cyfanswm o £5000-8000 y flwyddyn a byddai'n cael ei throsglwyddo o un flwyddyn i'r un nesaf.
- Byddai'r cyllid a ddarperir i'r ymchwilydd yn cynnwys treuliau rhesymol ac honorariwm cymedrol.

Byddai PGC Travis a Chadeirydd CBMA yn llofnodwyr ar y cyfrif. Byddai'r llofnodwyr yn gosod paramedrau ar y gydnabyddiaeth a gynigir ar gyfer yr ymchwil.

Byddai'r Cadeirydd yn ystyried teilyngdod y ceisiadau yn yr achos cyntaf. Wrth asesu a ddylid ariannu tasg ymchwil arfaethedig, dylai'r Cadeirydd ystyried y canlynol:

1. Dilysrwydd: Ydy'r ymchwil arfaethedig yn gyson â nodau a dibenion CBMA?
2. Ymchwilydd: A oes gan yr aelod pwyllgor arfaethedig y sgiliau a phrofiad priodol i ymgymryd â'r ymchwil? a
3. Dichonoldeb: A oes modd cyflawni'r gwaith o fewn amserlen y gellir ei hariannu gan gyllideb CBMA (h.y. dim mwy na deuddydd)?

2. **Archwilio'r Posibilrwydd i'r Pwyllgor Wneud Cyfraniad Ehangach i'r Heddlu**

Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod Aur y Prif Gwnstabl, gofynnwyd i CBMA ystyried sut allai ehangu cwmpas ei weithgarwch i helpu'r heddlu y tu hwnt i'w waith traddodiadol wrth ystyried cyfyng-gyngor moesegol y mae staff HDC yn cyfeirio ato. Cyflwynodd JWD y cwestiwn hwn i'r pwyllgor:

- Awgrymodd ML y gall fod angen i'r galw ddod gan yr heddlu.
- Nododd MJ y buddiannau i'r Pwyllgor fod yn gyson â'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar feysydd perthnasol. Gallai aelodau'r ddau bwyllgor fynd i gyfarfodydd ei gilydd i gael gwell dealltwriaeth o waith ei gilydd.
    - Oes gwerth cadw gwaith y ddau grŵp hyn yn annibynnol ar ei gilydd? Awgrymwyd y gellir ffurfio Grŵp Cynghori Arbenigol i helpu gyda gwaith CBMA, ac un o'r grwpiau arbenigol arfaethedig yw'r Grŵp Cynghori Annibynnol. (JWD)
- Awgrymodd JG ein bod yn adeiladu ar feysydd arbenigedd presennol yn y Pwyllgor. Gallai aelodau annibynnol gael eu galw arnynt i roi cyngor ar sefyllfaoedd/cyfyng-gyngor arbenigol sydd o fewn cwmpas eu harbenigedd proffesiynol.
    - Cytunodd JWD y dylai ein hymateb amlygu'r meysydd arbenigedd yn y Pwyllgor ac y dylem gynnig cymorth y pwyllgor lle bo angen.
- Nododd JWD ddulliau cyfrannu eraill gan gynnwys mynychu grwpiau Aur, cyfrannu at waith llunio polisïau a rhoi cyngor moesegol ar gyfer digwyddiadau sy'n amlygu eu hunain.
- Awgrymodd JW ailedrych ar amodau gorchwyl CBMA er mwyn deall diben y Pwyllgor: ydy'r CBMA wedi'i ddylunio i ymateb i alwadau'r heddlu neu a oes disgwyl i'r Pwyllgor fod yn rhagweithiol wrth awgrymu cyfyng-gyngor sy'n haeddu sylw.
    - Nododd MJ fod y Grŵp Cynghori Annibynnol yn symud i gyfeiriad bod yn fwy rhagweithiol.

Cadarnhaodd JWD y bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

7. Dyddiadau Cyfarfodydd yn 2022

Dydd Mawrth, 13 Medi, 0900 - 12:00 – Ystafell gyfarfod Dyffryn y Pencadlys

Dydd Iau, 8 Rhagfyr, 13:00 - 16:00 – Ystafell gyfarfod Dyffryn y Pencadlys